



Adolygiad Ysgolion Ardal

Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney ac
Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry

Mai 2014 • Dogfen ymgynghori ffurfiol



Beth ydym yn ceisio ei gyflawni?

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru i drawsnewid addysg yn anelu at foderneiddio'r ddarpariaeth addysg a sicrhau gwell canlyniadau i ddysgwyr. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a gweithredu system addysg sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu o safon; sy'n ymatebol i bob dysgwr, a chyflogwr; sy'n sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau er lles dysgwyr; ac yn mynd i'r afael ag anfantais.

Wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, rhaid inni fod yn arloesol yn ein hymateb i anghenion lleol sy'n newid. Mae hyn yn peri bod angen cysylltiadau llawer agosach rhwng y gwahanol ganghennau dysgu fel bod yr adnoddau gorau sydd ar gael – athrawon, adeiladau a chyfarpar – yn hygyrch i bob dysgwr o bob oed.

Rydym yn anelu at gyflawni darpariaeth addysg sy'n cwrdd ag anghenion dysgwyr a chyflogwyr ac yn cwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru fel y maent wedi'u nodi yn y Mesur Dysgu a Sgiliau. Rydym yn ceisio datblygu darpariaeth sy'n sicrhau ystod eang o opsiynau o ansawdd uchel ar gyfer pob dysgwr ac sy'n gynaliadwy ac yn effeithlon yn ei weithrediad. Rydym yn anelu hefyd at sicrhau trefniadau bugeiliol o ansawdd uchel i bawb. Mae hyn yn gofyn am gynllunio da, cydlynu da a chefnogaeth dda ar gyfer y rheini sy'n trosglwyddo i addysg bellach, addysg uwch a byd gwaith.

Enghraifft o hyn yw'r buddsoddiad mewn Canolfan Chweched Dosbarth newydd ar gyfer Glannau Dyfrdwy a Gogledd Sir y Fflint a fydd wedi'i lleoli yng Nghei Connah. Cyhoeddwyd hyn ym mis Rhagfyr 2012 gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint a Choleg Cambria.

Fe wnaeth holl Benaethiaid ac arweinwyr colegau Sir y Fflint gyfrannu at ddatblygiad Achos Amlinellol Strategol ar drefniadaeth addysg yn y dyfodol i fyfyrwyr 14 i 19 mlwydd oed yn Sir y Fflint. Cefnogwyd y strategaeth hon wedi hynny gan y Cyngor Sir a gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i drefniadaeth gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel, sy'n effeithlon ac effeithiol.

Ble mae ffyrdd darparu mwy effeithlon yn bosibl, rhaid ymchwilio i'r rhain, a phan y canfyddir y gall trefniadau mwy effeithiol gael eu rhoi yn eu lle, rhaid archwilio'r rhain hefyd i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.

Y trefniadau presennol

Ysgol ystod oedran 11-18 yw Ysgol Uwchradd Dewi Sant, ac mae'n cwrdd â'r Mesur Dysgu a Sgiliau (lleiafswm cyrsiau ôl-16 a gynigir) trwy gyfranogi yn y consortiwm Ôl-16 gydag ysgolion lleol eraill. Trwy'r trefniant hwn, mae'r disgyblion yn teithio at wahanol ddarparwyr i gael at y cwricwlwm dewisedig. Bydd y trefniant hwn yn dod i ben yng Ngorffennaf 2016 pan fydd ysgolion eraill sydd yn y consortiwm ar hyn o bryd yn dod yn ysgolion 11-16, wrth i'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion gydgrynhoi'r ddarpariaeth ôl-16 yn y Ganolfan newydd yng Ngheirionydd, a fydd yn golygu bod y cwricwlwm cyfan ar gael ar y safle, ac a fydd yn galluogi gwelliant yn y canlyniadau academaidd i bobl ifanc. Bydd y teithio rhwng ysgolion i bobl ifanc yn cael ei ddileu hefyd.

Ysgol ystod oedran 3-11 yw Ysgol Gynradd Saltney Ferry, gyda chysylltiadau agos ag Ysgol Uwchradd Dewi Sant. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n gadael yn 11 oed yn parhau eu hastudiaethau yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant.

Beth yw'r bwriad?

Bydd y trefniadau consortiwm ar gyfer Ysgol Uwchradd Dewi Sant, a roed yn eu lle i'w gwneud hi'n bosibl i chweched dosbarth bach gynigir y nifer gofynnol o bynciau ôl-16, yn dod i ben yng Ngorffennaf 2016. Oherwydd hyn, bwriedir lleihau ystod oedran uchaf yr ysgol o 18 mlwydd oed fel y mae ar hyn o bryd i 16 mlwydd oed.

Mae hyn yn debyg i'r trefniadau sydd yn yr arfaeth ar gyfer Ysgolion Uwchradd yn Nhreffynnon, Ceirionydd a Queensferry o fis Medi 2016 ac ar gyfer Ysgol Uwchradd Elfed Bwcle o fis Medi 2014.

Bydd cyrsiau i fyfyrwyr sy'n dymuno cael at y ddarpariaeth ôl-16 ar gael mewn Canolfan Chweched Dosbarth newydd sbon, o'r radd flaenaf yng Ngheirionydd o fis Medi 2016.

Bydd cludiant am ddim o ardal Saltney ar gael dan bolisi cludiant myfyrwyr ôl-16 Sir y Fflint i fyfyrwyr sy'n dymuno mynychu'r cyfleuster ôl-16 newydd yng Ngheirionydd.

Diben trawsnewid y ddarpariaeth ôl-16 yw ychwanegu at gydnerthedd o ran niferoedd myfyrwyr, cyllid, a nifer y cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr. I fod yn hyfyw o ran cyllid a nifer y cyrsiau a gynigir, dywed Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint y dylai fod o leiaf 120 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae gan Ysgol Uwchradd Dewi Sant 92 ar hyn o bryd ac mae'r rhagamcaniadau'n dynodi nifer sy'n gostwng yn y blynyddoedd i ddod.

Opsiwn i gynnwys Ysgol Gynradd Saltney Ferry

Mae niferoedd cynyddol o ysgolion yn dod yn ysgolion ystod oedran 3-16. Mae'r opsiwn hwn yn dilleu'r angen i ddisgyblion drosglwyddo o un gymuned ysgol i un arall, gan roi mwy o gyfleoedd ar gyfer dilyniant a chefnogaeth i bobl ifanc yn eu datblygiad academiaidd ac yn eu lles.

Mae sefydlu un ysgol gydag un gyllideb, un Pennaeth ac un Corff Llywodraethol yn golygu mai un un ethos ac un set o bolisiau sydd gan yr ysgol. Mae'r cyfuno'n darparu ysgol fwy ble gall adnoddau gael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol. Mae'r ddwy ysgol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn barod ac mae manteision enfawr i'w cael trwy ddefnyddio cryfderau cyfunol y ddwy ysgol i ddatblygu cyfnod cynradd cryf, uchel ei berfformiad ymhellach a bydd hynny wedyn yn darparu pontio diasiad i gyfnod uwchradd llwyddiannus, y cydnabyddir yn barod bod Ysgol Dewi Sant yn ei ddarparu.



Poblogaethau'r Ysgolion

Ysgol	Lle	Gradd Cyflw	Niferoedd Myfyrwyr										
			4 Blwyddyn Flaenorol				Cyfredol	Rhagolygon					
(Y ddwy'n gyfrwng Saesneg)				09/10	10/11	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19
Blwyddyn													
Ysgol Uwchradd Dewi Sant	687	B	CYFANSWM	635	620	585	563	514	484	486	474	487	514
			6ed Dosbarth	70	75	81	97	92	80	72	60	63	62
Ysgol G.S Saltney Ferry	252	C	CYFANSWM (meithrin)	129 (15)	122 (17)	132 (15)	117 (14)	126 (13)	124	124	124	125	125

Yn seiliedig ar nifer y disgyblion a dderbyniwyd yn 2013

Graddau Cyflwr Adeiladau:

- A Da
- B Boddhaol
- C Gwael
- D Drwg

Canlyniadau presennol a manteision posibl y newidiadau arfaethedig

Yn Arolygiad diweddaraf Estyn o Ysgol Uwchradd Dewi Sant (Ebrill 2011) mae'r ysgol yn cael ei disgrifio'n 'dda' am ei pherfformiad, a bod ganddi ragolygon rhagorol ar gyfer gwella. Mae Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn ysgol dda am ei bod wedi bod yn llwyddiannus wrth godi safonau cyflawniad a lles y disgyblion a'r myfyrwyr. Y prif ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn yw ansawdd yr arwain a'r rheoli, gwelliant yn ansawdd yr addysgu, defnydd data i osod a monitro targedau a'r gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr. Mae gan yr ysgol ragolygon rhagorol ar gyfer gwella oherwydd 'arweiniad strategol eithriadol y Pennaeth, yr arweiniad a'r gefnogaeth dra effeithiol a ddarperir gan uwch reolwyr a rheolwyr canol a'r diwylliant o ddisgwyliadau uchel a hefyd y gwelliannau arwyddocaol yn lefelau cyrhaeddiad dysgwyr'.

Mae adroddiad diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Gynradd Saltney Ferry (Ionawr 2014) wedi arwain at roi'r ysgol mewn categori sy'n gofyn am fesurau arbennig i fynd i'r afael â'r materion a glustnodwyd yn yr adroddiad.

Serch hynny, mae adroddiad Estyn yn dweud bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau dysgu, eu bod yn teimlo'n ddiogel a hapus a bod y rhan fwyaf yn brydlon ac yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd a bod ganddynt agwedd gadarnhaol at gadw'n iach. Mae'r ysgol yn dangos gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd da i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r Pennaeth dros dro, y Llywodraethwyr a'r staff yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn gweithio'n agos â'r Awdurdod Lleol i lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

Mae canlyniad llwyddiannus y Cynllun Gweithredu o bwys i Ysgol Uwchradd Dewi Sant hefyd, gan fod bron pob un disgybl yn trosglwyddo yno ar gyfer eu haddysg uwchradd.

Mae'r opsiwn i gysylltu cyfnodau cynradd ac uwchradd addysg yn rhoi cyfle cyffrous i ddatblygu ysgol gref a chadarn a fydd o fudd i ddysgwyr o dair oed yr holl ffordd drwodd i un ar bymtheg.

Mae'r fantais o fod ag un ethos ysgol, a rhannu arbenigedd staff a gwybodaeth yn ymwneud â chynnydd y disgyblion yn arwain at well canlyniadau i ddysgwyr. Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r datblygiad yn Queensferry i sefydlu ysgol ystod oedran 3-16, ac yn dilyn patrwm cynyddol ar draws y wlad o sefydlu'r ysgolion hyn.

Bydd y cynnig i uno'r ddwy ysgol yn darparu màs critigol mwy o ddisgyblion, a fydd eto'n gwneud y ddarpariaeth yn gryfach ac yn fwy cadarn at y dyfodol.

Bydd unrhyw fuddsoddiad cyfalaf yn yr adeiladau yn y dyfodol yn ddibynnol ar nifer o ffactorau megis lleihau'r lleoedd dros ben a'r ymrwymiad i ddarparu addysg mewn ffordd sy'n fwy effeithlon ac effeithiol i'r dysgwyr. Byddai'r opsiwn hwn yn ffurfio sail cais i Lywodraeth Cymru am gyllid grant sylweddol i ddarparu un adeilad i gynnwys yr ysgol newydd.

Gallai ysgol fwy o'r math yma fod â rôl llawer mwy wrth ddarparu cysylltiadau agosach â'r gymuned, megis datblygu'r cylch chwarae ymhellach er mwyn cynyddu niferoedd disgyblion at y dyfodol.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ag un o'r opsiynau hyn, bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi pryd y gall unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad yn ystod cyfnod o fis ar ôl y cyhoeddiad.

Caiff pob gwrthwynebiad yn y cyfnod hwn eu cyflwyno gyda'r cynnig i Weinidogion Cymru iddynt hwy eu penderfynu.

Materion Ariannol

Trwy ddod â'r ysgolion at ei gilydd, bydd rhywfaint o arbedion mewn perthynas ag un uwch-reolaeth ac arweinyddiaeth. Ni ragwelir y bydd arbedion sylweddol yn cael eu gwneud hyd nes bo un adeilad, a all gymryd cyfnodau cynradd ac uwchradd addysg, wedi'i sefydlu. Ni ddisgwylir i gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn fod ar gael tan 2017 neu'n ddiweddarach a bydd yn dibynnu hefyd ar allu'r Cyngor i gyllido'i gyfran o'r gost (50% ar hyn o bryd). Fe all unrhyw werthu tir o ganlyniad i'r uno arfaethedig gael ei gyfiawnhau i wrthbwysu rhywfaint o'r costau. Hyd nes y cyllidir adeilad newydd, byddai'r ddwy ysgol yn gweithredu yn yr un ffordd ar safleoedd ar wahân, ond dan un Corff Llywodraethol, Pennaeth, ac Uwch Dîm Rheoli. Byddai'r ddarpariaeth Gynradd ac Uwchradd yn cael ei harwain gan staff gyda chymwysterau priodol, yn adrodd i Bennaeth yr ysgol 3-16 newydd.

Ni fyddai costau rhedeg y ddau adeilad yn newid felly o ganlyniad i'r uno cychwynol sydd yn yr arfaeth o fis Medi 2015.

Faint fydd y broses yma yn ei gymryd?



Ymgynghori

Mae hi'n bwysig y dylech chi allu cyfrannu at sicrhau bod addysg yn eich ardal yn sicrhau'r cyfleoedd a'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr.

Gellir ymateb i'r ymgynghoriadau tan y 4ydd Gorffennaf 2014. Byddir yn adrodd ar yr ymatebion hyn i aelodau Cabinet y Cyngor iddynt hwy eu hystyried cyn i unrhyw benderfyniad ar drefniadaeth yr ysgol gael ei wneud.

Yr Opsiynau Ymgynghori – Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Saltney Ferry

1. Newid ystod oedran Ysgol Uwchradd Dewi Sant o 11-18 i 11-16 o fis Medi 2016.
2. Uno'r ddarpariaeth Gynradd yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry gyda'r ddarpariaeth uwchradd yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant o fis Medi 2015 a newid ystod oedran yr Ysgol Uwchradd i 3-16 o fis Medi 2016.

Ymgynghori (parhad...)

Yn opsiwn 1, byddai'r ddarpariaeth 16-19 bresennol yn cael ei dileu'n raddol a'i chau i fyfyrwyr newydd ar gyfer mis Medi 2016.

Byddai trefniadau'n cael eu gwneud i ddarparu dilyniant addysgu i'r rheini a oedd wedi cychwyn ar gwrs ôl-16 yn yr ysgol yn barod.

Byddai cludiant i'r ddarpariaeth ôl-16 ddynodedig yn unol â pholisi Cludiant Ôl-16 Sir y Fflint, sydd am ddim i fyfyrwyr sy'n byw mwy na 3 milltir oddi wrth y ddarpariaeth.

Mae'r Ganolfan Chweched Dosbarth newydd wedi'i lleoli yng Nghei Connah yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae hon yn ganolfan gwerth £14.5m sy'n cael ei hadeiladu mewn cydweithrediad â Choleg Cambria. Bydd y Ganolfan yn cael ei hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer darpariaeth ôl-16 a bydd ganddi adnoddau o'r radd flaenaf a'r amgylchedd dysgu gorau sydd ar gael. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cyfrannu £3.6m at y prosiect, gyda'r gweddill yn cael ei gyllido gan Goleg Cambria a Llywodraeth Cymru o ran Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i ddod â dosbarthiadau chwech bach at ei gilydd mewn canolfannau modern, cynaliadwy ac uchel eu hansawdd.

Yn Opsiwn 2, bwriedir sefydlu ysgol ystod oedran 3-16, gan ddefnyddio'r adeiladau presennol yn y lle cyntaf,

dan arweinyddiaeth a rheolaeth un Pennaeth a chorff llywodraethol. Byddai hyn yn darparu'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth gref sydd eu hangen i ddiogelu'r ddarpariaeth Gynradd a ddarperir ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac i ychwanegu at gadernid y ddarpariaeth Uwchradd fel y'i darperir gan Ysgol Uwchradd Dewi Sant. Bydd yr opsiwn hwn yn sicrhau bod addysg Gynradd ac addysg Uwchradd yn Saltney yn rhoi'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc.

Byddai'r trefniadau ar gyfer y chweched dosbarth yr un fath ag ar gyfer Opsiwn 1.

Mae rhesymoli'r ddarpariaeth ôl-16 yn unol â'r agenda a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, i ddarparu addysg ôl-16 mewn lleoliadau mwy a mwy cadarn.



Sut i ymateb

Mae nifer o ffyrdd y gellwch roi gwybod inni beth ydych yn ei feddwl. Gellwch:

- ofyn cwestiynau a rhoi gwybod inni beth yw'ch barn yn y cyfarfodydd hyn
- llenwi holiadur ar-lein ar www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview
- llenwi holiadur a'i ddychwelyd i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion, Dysgu Gydol Oes, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND; neu
- fel arall gellwch roi'ch ymatebion/cwestiynau ar ddu a gwyn i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion, Dysgu Gydol Oes, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND

Bydd yr ymgynghori'n dod i ben ar 4ydd Gorffennaf 2014.

Nodwch os gwelwch yn dda nad yw ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif yn wrthwynebiadau yn y cyfnod hwn. Gall y rhain ond cael eu cyflwyno ar ôl y cyfnod nesaf, sef cyhoeddi hysbysiad statudol, sy'n nodi'r opsiwn terfynol y mae cynghorwyr wedi penderfynu arno. Bydd hwn yn ymddangos yn yr ysgol ac ar wefan y Cyngor. Bydd yr ysgol yn cael gwybod pryd y mae hynny i fod, ac os hoffech hysbysiad, rhowch eich manylion ar y ffurflen amgaeëdig os gwelwch yn dda.



Cyfarfodydd Ymgynghori

Lleoliad	Gwahoddedigion	Dyddiad	Amser	Math o Gyfarfod
Ysgol Uwchradd Dewi Sant	Athrawon, staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Dewi Sant	Dydd Llun 19 Mai 2014	4.00 pm	Cyflwyniad gyda holi ac ateb i ddilyn
Ysgol Uwchradd Dewi Sant	Rhieni a Gofalwyr Ysgol Uwchradd Dewi Sant	Dydd Llun 19 Mai 2014	6.00 pm	Cyflwyniad gyda holi ac ateb i ddilyn
Ysgol Gynradd Saltney Ferry	Athrawon, staff a llywodraethwyr Ysgol Gynradd Saltney Ferry	Dydd Iau 22 Mai 2014	4.00 pm	Cyflwyniad gyda holi ac ateb i ddilyn
Ysgol Gynradd Saltney Ferry	Rhieni a Gofalwyr Ysgol Gynradd Saltney Ferry	Dydd Iau 22 Mai 2014	6.00 pm	Cyflwyniad gyda holi ac ateb i ddilyn

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

(nodwch os gwelwch yn dda na fydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyfrif yn wrthwynebiad ffurfiol)

Adolygiad Ysgolion Ardal

Mai 2014

Cyn ichi ddechrau – os hoffech lenwi'r ffurflen hon ar-lein ewch i www.flintshire.gov.uk/areaschoolreview

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwyd ichi yn y llyfryn hwn, yn y digwyddiad ymgynghori ac o ddogfennau eraill sydd ar gael ar wefan y Cyngor, dywedwch wrthym beth yw'ch barn ar yr opsiwn a ffefrir gan y Cyngor yn eich ardal.

Pa mor gryf ydych yn cytuno ag Opsiwn 1 yr ymgynghoriad ar gyfer Ysgol Uwchradd Dewi Sant?

- | | | |
|---|---|---|
| <input type="checkbox"/> Cytuno'n Gryf | <input type="checkbox"/> Tueddu i Gytuno | <input type="checkbox"/> Nid yn Cytuno nac yn Anghytuno |
| <input type="checkbox"/> Tueddu i anghytuno | <input type="checkbox"/> Anghytuno'n gryf | |

Pa mor gryf ydych yn cytuno ag Opsiwn 2 yr ymgynghoriad ar gyfer Ysgol Uwchradd Dewi Sant?

- | | | |
|---|---|---|
| <input type="checkbox"/> Cytuno'n Gryf | <input type="checkbox"/> Tueddu i Gytuno | <input type="checkbox"/> Nid yn Cytuno nac yn Anghytuno |
| <input type="checkbox"/> Tueddu i anghytuno | <input type="checkbox"/> Anghytuno'n gryf | |

Dywedwch wrthym paham eich bod yn teimlo fel hyn os gwelwch yn dda. Rhowch ddisgrifiad o unrhyw opsiwn arall yr hoffech ei gyflwyno os gwelwch yn dda.

.....

.....

.....

.....

.....

Amdanoch chi:

I'n helpu i ddeall beth y mae gwahanol grwpiau o bobl yn ei feddwl, dywedwch ychydig amdanoch eich hun wrthym os gwelwch yn dda: Rhowch eich manylion cyswllt isod os gwelwch yn dda (*yn anffodus nid ydym yn gallu ystyried ymatebion oni bai bod manylion cyswllt, yn cynnwys côd post llawn, yn cael eu cyflenwi.*)

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post: Epost:.....

Pa un o'r rhain ydych:

- | | | |
|---|---|--|
| <input type="checkbox"/> Rhiant/Gofalwr | <input type="checkbox"/> Athro/Athrawes | <input type="checkbox"/> Staff Cymorth |
| <input type="checkbox"/> Llywodraethwr | <input type="checkbox"/> Arall | |

Enw'r ysgol:

.....

Hoffwn gael gwybod am unrhyw hysbysiad statudol yn y dyfodol yn ymwneud â'r ymgynghoriad hwn os felly, rhowch eich cyfeiriad e-bost os gwelwch yn dda